**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL** |
| **SUBJECT:** | **IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD MERCHER, 28 GORFFENNAF 2021 DYDD MERCHER, 28 GORFFENNAF 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT:

Councillors W. Hodgins
L. Winnett
C. Meredith

WITH:

| |
|---|
| Steve Osborne (Swyddog) |
| Helen Jones (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Hayley Hawkins (Staff y Cyngor) |
| Michele Bennett (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

| No. 4 | **DEDDF TRWYDDEDU 2003 – TRWYDDED SAFLE NEWYDD – 58 GLYN TERRACE, TREDEGAR, GWENT.**<br><br>Cyflwynwyd yr Ymgeisydd a Chyfreithiwr yr Ymgeisydd ynghyd â mynychwyr eraill i Swyddogion ac Aelodau’r Is-bwyllgor.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y galwyd y cyfarfod o’r Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol i ystyried cais am drwydded safle newydd yn unol â Deddf Trwyddedu 2003. Cyflwynwyd y cais gan Mr. Jegathees Thevarasa yng nghyswllt 58 Glyn Terrace, Tredegar, Gwent, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003. Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu nad oes unrhyw drwydded mewn grym ar hyn o bryd yng nghyswllt y safle a bod yr Ymgeisydd wedi gwneud cais am y gweithgareddau ac amserau dilynol:-<br>• Cyflenwi alcohol – dydd Llun i ddydd Sadwrn - 7.00 am i 11.00 pm<br>• Oriau agor - 6.00 am i 11.00 pm<br><br>Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, mae’r Ymgeisydd wedi rhoi copïau o’r cais i’r awdurdodau cyfrifol a dangoswyd hysbysiad yn y safle am 28 diwrnod i alluogi pobl eraill i wneud sylwadau. Cafodd hysbysiad o’r cais hefyd ei roi yn y Gwent Gazette a’i hysbysebu ar wefan Cyngor Blaenau Gwent am gyfnod o 28 diwrnod.<br><br>Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu mai’r unig sylwadau a gafwyd oedd rhai gan Heddlu Gwent, a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ddiwygio’r cais i gynnwys yr amodau dilynol a gyflwynwyd gan Heddlu Gwent:-<br><br>• Caiff CCTV ei osod a bydd yn gweithio gan fodloni’r Heddlu a’r Awdurdod Trwyddedu. Byddid yn cadw recordiadau am o leiaf 28 diwrnod. Rhaid i’r recordiadau fod ar gael ar unwaith ar gais unrhyw swyddog gydag awdurdod a enwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Os yw’r offer CCTV yn methu, hysbysir yr Heddlu a’r Swyddog Trwyddedu cyn gynted ag sydd modd a chymerir camau ar unwaith i atgyweirio’r offer. Bydd y DPS yn hyfforddi nifer o staff priodol i ddefnyddio’r system CCTV i hwyluso gweithrediad effeithiol gyda golwg ar ddarparu tystiolaeth ar gais swyddog gydag awdurdod a enwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Caiff yr amser a’r dyddiad cywir ei roi ar y recordiad a’r sgrin delwedd amser real.<br><br>• CCTV i fod yn weithredol yn yr holl ardal drwyddedig o’r safle, ac i fod o ansawdd y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth. Bydd arwyddion clir yn dweud fod offer CCTV yn cael ei ddefnyddio a’i recordio yn y safle. | |
|---|---|---|

- Mabwysiadu, gweithredu a hysbysebu cynllun a gymeradwywyd ar gyfer tystiolaeth o oedran o fewn y safle tebyg i 'Her 25', lle byddir yn gofyn am ffurf gydnabyddedig o adnabyddiaeth ffotograffig cyn gwerthu alcohol i unrhyw berson sy'n ymddangos i fod dan 25 oed. Bydd tystiolaeth dderbyniol o oedran yn cynnwys adnabyddiaeth gyda ffotograff y cwsmer, dyddiad geni a marc holograffig cyfannol neu fesur diogelwch.

  Byddai dulliau addas o adnabod yn cynnwys cerdyn tystiolaeth oedran a gymeradwywyd gan PASS, trwydded yrru gyda cherdyn llun a phasbort.

- Caiff pob gwrthodiad ei gadw mewn llyfr gwrthodiad yn rhoi manylion yr amser, y dyddiad, y nwyddau, yr aelod o staff ac enw'r person a geisiodd brynu. Os na roddir enw, yna mae'n rhaid rhoi disgrifiad da. Dylai'r ddogfen fod ar gael i swyddog gydag awdurdod o'r Awdurdod Trwyddedu neu Gwnstabl i'w harchwilio ar gais a'i chadw am gyfnod o 12 mis.

- Yr holl staff i gael eu hyfforddi yng nghyswllt gwerthu i bobl dan oed, a hyfforddiant o'r fath i gael ei ddiweddaru pan mae deddfwriaeth yn newid a dylai gynnwys hyfforddiant am sut i wrthod gwerthu i gwsmeriaid anodd. Dylid hefyd gynnal hyfforddiant diogelu gyda'r holl staff. Dylai hyfforddiant gael ei ddogfennu'n glir a'i lofnodi gan yr hyfforddwr a'r aelod o staff sy'n ei dderbyn. Dylai'r ddogfen fod ar gael i gael ei harchwilio ar gais gan swyddog wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu neu Gwnstabl.

- Dylid cadw llyfr digwyddiadau yn y safle bob amser a'i ddangos ar unwaith i swyddog wedi ei awdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu os gwneir cais. Bydd yn cynnwys manylion y personau sy'n gysylltiedig, disgrifiad o'r digwyddiad, amser a dyddiad, y camau a gymerwyd a chanlyniad terfynol y sefyllfa. Rhaid cadw'r llyfr cofnodion am gyfnod o 12 mis.

- Rhaid gofyn i gwsmeriaid stwrllyd a/neu afreolus i adael y safle.

- Drwy gydol yr oriau y mae'r drwydded yn gweithredu, bydd y safle yn mynd o amgylch y safle yn rheolaidd i gasglu unrhyw sbwriel yn yr ardal honno.

- Os yw cwsmeriaid tu allan i'r safle yn crynhoi ar y palmant, yn gwagsymera a/neu yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, dywedid wrthynt am symud i ffwrdd o tu allan y stôrl.

- Ni chaiff diodydd alcoholig a brynir o'r safle mewn cynwysyddion agored eu hyfed o flaen y safle.

Cynigir yr uchod i gynorthwyo wrth hyrwyddo'r amcanion trwyddedu allweddol.

Gan fod yr Ymgeisydd wedi cytuno i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gwent, dywedodd y Prif Swyddog Trwyddedu y cafodd eu sylwadau eu dileu. Cyfeiriodd y Swyddog at Atodiad 3 yr adroddiad sy'n rhoi manylion sylwadau a gafwyd gan 'bersonau eraill' ac er y derbyniwyd hysbysiad am y diwygiadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gwent, roedd y gwrthwynebiadau yn dal i sefyll. Dywedodd y Swyddog y derbyniwyd deiseb hefyd gyda dros 209 llofnod yn gwrthwynebu'r cais dan yr amcanion trwyddedu.

Dywedodd yr Uwch Swydd-g Trwyddedu fod yn rhaid i'r Is-bwyllgor Trwyddedu wrth ystyried y cais roi ystyriaeth i'r darpariaethau yn Neddf Trwyddedu 2003, yn neilltuol yr amcanion trwyddedu dilynol:

- Atal troseddu ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed
- Y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref dan adran 182 y Ddeddf a pholisi trwyddedu y Cyngor.

I gloi, cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu yr Aelodau at yr opsiynau ar gyfer argymhelliad:-

- Rhoi'r drwydded
- Rhoi'r drwydded gydag addasiadau i'r amodau
- Eithrio unrhyw weithgaredd y mae angen trwydded amdanynt y mae'r cais yn cyfeirio atynt
- Gwrthod penodi Goruchwyliwr Safle Dynodedig
- Gwrthod y cais am drwydded.

Yna gwahoddodd y Cadeirydd Gyfreithiwr yr Ymgeisydd i gyflwyno ei achos.

Dywedodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd bod yr ymgeisydd wedi gwneud cais yng nghyswllt 58 Glyn Terrace, Tredegar. Gofynnwyd am y cais i gyflenwi alcohol rhwng dydd Llun a dydd Sul – 7.00am a 11.00pm a'r oriau agor fyddai 6.00 am i 11.00pm dydd Llun i ddydd Sul heb wneud cais am drwydded ar gyfer gweithgareddau eraill. Bu'r Ymgeisydd yn gweithredu siopau diodydd trwyddedig am 8 mlynedd ym Margoed a Phontypridd. Bydda'r siop yn cael ei rheoli gan yr ymgeisydd a'i wraig a fyddai'n byw ar y safle uwchben y siop. Dywedodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd y byddai'r siop yn cael ei rhedeg a'i rheoli gan yr Ymgeisydd a'i wraig ac y byddid yn cyflogi staff lleol maes o law. Ni fu erioed angen ymyriad gan yr heddlu yn safleoedd eraill yr Ymgeisydd ac nid oedd dim o'r trwyddedau erioed wedi eu dileu.

Ychwanegodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd y byddai'r siop gornel fach yn gwerthu baco, bwyd a diodydd meddal. Roedd yr Ymgeisydd wedi dod yn gyfrifol am y safle tua 2 mis yn ôl ac roedd yn gyfarwydd gyda dosbarthu llaeth. Dymunai'r Ymgeisydd gynyddu'r cynnyrch sydd ar gael yn y siop i gynnwys alcohol, er na fyddai'r Ymgeisydd yn gwerthu diodydd lefel uchel, byddai'n gwrw a gwin 4-5% o'r cyfaint.

Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at yr amodau cadarn a gyflwynwyd gan Heddlu Gwent y cytunodd yr Ymgeisydd iddynt ac felly cafodd pryderon yr Heddlu eu tynnu'n ôl. Yr Heddlu yw'r cynghorwyr allweddol mewn materion o droseddu ac anrhefn a gofynnwyd fod yr Is-bwyllgor yn rhoi'r ystyriaeth ddyladwy i'r amodau hyn sy'n bodloni Heddlu Gwent yn lleol.

Cafodd Mr & Mrs Shepherd eu gwahodd gan y Cadeirydd i annerch y Pwyllgor. Dywedodd Mr a Mrs Shepherd fod y cais yn achos pryder mawr i breswylwyr yr ardal. Dywedwyd fod y rhan hon o Georgetown yn ardal dawel, fodd bynnag mae wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn blynyddoedd diweddar a theimlai'r preswylwyr fod hyn wedi gwaethygu oherwydd bod siopau lleol yn gwerthu alcohol gan y byddai'n cael ei yfed yn yr ardal gyfagos tan yn hwyr yn y nos.

Ychwanegodd Mr a Mrs Shepherd eu bod yn byw'n agos at y siop gornel ac ei fod yn achos llaewr o gonsyrn y gallai fod o bosibl yn gwerthu alcohol. Mae'r Heddlu wedi cofnodi'r problemau blaenorol gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal a chadarnhaodd Mrs Shepherd ei bod yn weithgar gyda'r cynllun Gofal Cymdogaeth yn yr ardal. Roedd y rhan fwyaf o'r problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd yfed dan oed oedd wedi arwain at ymddygiad eithafol. Mae nifer o bobl hŷn yn byw yn yr ardal ac roedd siop ychwanegol yn gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos yn achos llawer o bryder.

Cyfeiriodd Mrs Shepherd at y pandemig oedd wedi arwain at i breswylwyr hŷn a bregus fod yn ynysig yn eu cartrefi am y 18 mis diwethaf ac mae'r cais arfaethedig wedi rhoi ofn parhaus i breswylwyr na fyddent yn methu gadael eu cartrefi.

Esboniodd Mr Shepherd faint o ymddygiad gwrthgymdeithasol eithafol a brofwyd gan breswylwyr a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod eisoes ddwy siop yn gwerthu alcohol yn yr ardal a theimlid felly nad oedd angen siop arall. Dywedwyd hefyd fod perchnogion y

siopau hyn wedi cytuno gwerthu alcohol tan 7.00pm. Gwnaed y cytundeb hwn oherwydd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a brofwyd yn yr ardal.

Anerchodd y Cynghorwyr J. Morgan a K. Hayden, Aelod Ward yr Is-bwyllgor a chytuno gyda'r pryderon a godwyd gan Mr a Mrs Shepherd yng nghyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y preswylwyr wedi gorfod dioddef grwpiau swnllyd, fandaliaeth i geir, torri ffenestri a tharfu arnynt tan yr oriau mân, a bod y cyfan yn codi ofn ar y preswylwyr. Dywedodd yr Aelod Ward fod preswylwyr wedi gofyn i'r heddlu ymweld â'r ardal yn rheolaidd. Daeth y problemau hyn i ben pan wnaeth y siop leol gau, fodd bynnag agorodd un arall a dechreuodd eto, i'r perchennog wedyn gytuno i gau'r siop am 7.00pm.

Ychwanegodd yr Aelod Ward fod Glyn Terrace yn ardal dawel gyda phreswylwyr o oedran cymysg, fodd bynnag mae mwyafrif y preswylwyr o'r genhedlaeth hŷn. Mae'r siop bresennol yn gwerthu ychydig o alcohol ac mae gan yr ardal Happy Shopper. Dywedodd yr Aelod Ward nad oedd unrhyw wrthwynebiad i siop gornel arall, y prif bryderon oedd ailddechrau problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol tebyg i'r rhai a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Dywedodd yr Aelod Ward fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gwaethygu drwy'r Fwrdeistref a bod llawer o'r problemau yn ymwneud ag alcohol a bod gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i atal hynny yn lleol a hefyd ledled Blaenau Gwent.

Cynigiodd yr Aelod Ward fod yr Ymgeisydd yn agor y siop gornel yn gyntaf i gael teimlad am yr ardal ac aros am gyfnod cyn werthu alcohol. Teimlai'r Aelod Ward y byddai'n galluogi'r preswylwyr lleol i ddod i adnabod yr Ymgeisydd ac felly awgrymodd y dylid tynnu'r cais yn ôl neu aros blwyddyn cyn cyflwyno cais i werthu alcohol.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan Aelodau ar y pwynt hwn.

Gofynnodd yr Aelod os byddai'r Ymgeisydd yn ystyried cyfyngu'r adegau ar gyfer gwerthu alcohol.

Holodd Aelod arall os bu unrhyw broblemau gyda siopau'r Ymgeisydd ym Margoed a Phontypridd ac os byddai rhywun yn byw uwchben y siop er mwyn trin unrhyw broblemau.

Cadarnhaodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd na fu unrhyw broblemau gyda'r siopau eraill y mae'r Ymgeisydd yn berchen arnynt gyda'r Heddlu na'r awdurdodau trwyddedu. Dywedwyd fod gan yr Ymgeisydd record ddilychwin.

Yn nhermau trefniadau byw, byddai'r Ymgeisydd a'i wraig yn byw uwchben y siop ac yn rhedeg y busnes tan y byddent maes o law yn edrych ar gyflogi staff. Dywedwyd fod yr Ymgeisydd yn byw ym Margoed ar hyn o bryd, fodd bynnag mae'n gyfarwydd gyda'r ardal gan ei bod yn dosbarthu llaeth yn yr ardal.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod y siopau eraill yn yr ardal yn cael agor rhwng 7.00am a 11.00pm a bod perchennog y siop wedi cau am 7.00pm, fodd bynnag nid yw hyn yn newid swyddogol mewn oriau trwyddedu. Mae'r amser a ganiateir ar gyfer agor yn parhau i fod yn 11.00pm.

Wrth grynhoi, atgoffodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd yr Is-bwyllgor am record ddilychwin yr Ymgeisydd ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan yr awdurdodau cyfrifol a bod Heddlu Gwent wedi tynnu eu gwrthwynebiadau yn ôl gan fod yr Ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau a fyddai'n ffurfio sail y drwydded.

Gadawodd yr Ymgeisydd a'r Swyddog Trwyddedu y cyfarfod ar y pwynt hwn i Aelodau ystyried y cais.

Trafododd y Pwyllgor y cais yn faith a gwnaed penderfyniad, a gwahoddwyd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion yn ôl i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r rhesymau a gytunwyd gan yr Is-bwyllgor. Mae'r rhesymau llawn fel sy'n dilyn:-

Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig ar gyfer y cais hwn am Drwydded Safle newydd yn 58 Glyn Terrace, Tredegar, Gwent NP22 4JA fel y'i cyflwynwyd yn adroddiad y Swyddog, ynghyd â'r sylwadau llafur a roddwyd yn y gwrandawiad ar ran yr Ymgeisydd gan ei Gyfreithiwr, Aelodau Ward a Gwrthwynebwyr.

Hysbyswyd yr Is-bwyllgor am wrthwynebiadau dechreuol Heddlu Gwent a gafodd eu tynnu'n ôl pan gytunodd yr Ymgeisydd gyda'r gwahanol amodau a nodir yn adroddiad y Swyddog. Hysbyswyd yr Is-bwyllgor hefyd am y nifer fawr o wrthwynebiadau i'r ymgeisydd gan breswylwyr yn byw yn agos at 58 Glyn Terrace ac y cafod

deiseb gyda thua 209 llofnod yn erbyn y cais. Prif bryderon y preswylwyr yw ymddygiad gwrthgymdeithasol/difrod troseddol posibl ac yn y blaen.

Wrth wneud ei benderfyniad heddiw, mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried darpariaethau perthnasol Deddf Trwyddedu 2003 (yn arbennig Adran 4) a'r canllawiau a roddwyd dan Adran 182 y Ddeddf a Pholisi Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y cais yng ngoleuni pedair Amcan Trwyddedu:

- Atal troseddu ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu plant rhag niwed

**Penderfyniad**

Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan yr Ymgeisydd.

Mae'r Is-bwyllgor hefyd yn gwerthfawrogi pryderon preswylwyr lleol, fodd bynnag yn seiliedig ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad y mae'r Ymgeisydd yn fodlon cydymffurfio â nhw, teimlai'r Is-bwyllgor y dylai'r Ymgeisydd gael cyfle i brofi ei hun a gwnaed y penderfyniad:

I roi'r Drwydded gyda'r amodau dilynol:

- Alcohol i gael ei weini rhwng 10am – 7pm
- CCTV i gael ei osod i fodloni'r Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu. Cylchoedd 28 Diwrnod i gael eu cadw ac i fod ar gael os gwneir cais. Yr Ymgeisydd i hysbysu'r Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu os yw'r CCTV yn peidio gweithio ac y byddai angen ei drwsio cyn gynted ag a fyddai'n ymarferol bosibl.
- DPS i hyfforddi staff i ddefnyddio'r CCTV a bydd y dyddiad a'r amser cywir bob amser yn ymddangos ar bob delwedd. Bydd arwyddion clir yn y safle i ddangos fod CCTV yn gweithredu.
- Bydd cynllun Tystiolaeth Oedran yn y safle. Gofynnir am ddull adnabyddiaeth gan y rhai sy'n ymddangos i fod dan 25 oed fydd yn cynnwys enw, cyfeiriad a ffotograff.
- Caiff unrhyw wrthodiad i werthu ei gofnodi gyda dyddiad, amser ac eitemau. Cedwir hyn am 12 mis.
- Yr holl staff i gael eu hyfforddi mewn gwerthu i bobl dan oed/diogelu. Pob hyfforddiant i gael ei gofnodi'n gywir a chadw cofnodion.

- Llyfr adrodd digwyddiadau i gael ei gadw ac i fod ar gael i'r Heddlu a'r Swyddog Trwyddedu ei archwilio.
- Gofynnir i unrhyw un sy'n dangos ymddygiad anhrefnus i adael.
- Patrôl sbwriel gan staff rhwng 6pm a 11pm.
- Os bydd pobl yn crynhoi wrth y fynedfa neu du allan i'r safle, gofynnir iddynt symud i ffwrdd.
- Dim alcohol i gael ei yfed tu allan i'r safle.

**<u>Hawl Apelio</u>**

Mae gan bob parti hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn y penderfyniad hwn. Mae gan unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall hawl i ofyn am adolygu'r Trwydded.

Dymunai Aelod o'r Is-bwyllgor iddo gael ei ychwanegu fod trwyddedigion eraill yn yr ardal wedi bod yn gyfrifol ac wedi penderfynu stopio gwerthu alcohol am 7.00pm er budd yr ardal a'r preswylwyr lleol. Felly teimlwyd fod y rhain yn ddeiliaid trwydded cyfrifol yn gweithio gyda'r gymuned i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yr Is-bwyllgor wedi bod eisiau rhoi trwydded i'r Ymgeisydd yn unol gyda'u horiau gweithredu.